



Cyngor Sir y Fflint

**Moderneiddio Ysgolion
Strategaeth Diweddaraf 2015**

Mynegai

Cyflwyniad	Tud 4
Adran 1:	
Newid a Moderneiddio	Tud 5
Gwella Addysg	Tud 6
Arweinyddiaeth Cadarn	Tud 6
Adeiladau Addas	Tud 7
Cyfarwyddyd Rheoli Asedau Cenedlaethol	Tud 8
Ysgolion Sir y Fflint – Ystadegau Rheoli Asedau	Tud 9
Lleoedd heb eu llenwi mewn Ysgolion	Tud 10
Adnoddau Lleiedig	Tud 11
Adran 2:	
Modelau Trefniadaeth Ysgolion	Tud 12
Ffederasiwn	Tud 12
Manteision Trefniadau Ffederal	Tud 13
Anfanteision Trefniadau Ffederal	Tud 14
Modelau Moderneiddio	Tud 15
Darpariaeth Gynradd	Tud 15
Darpariaeth Uwchradd	Tud 17
Pwyntiau Sbarduno	Tud 19
Adran 3:	
Polisiau Sylfaenol	Tud 20
Derbyniadau	Tud 20
Cludiant	Tud 20

Cefnogi a Chynnal yr Iaith Gymraeg.	Tud 20
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant	Tud 21
Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol	Tud 21
TGCh mewn Ysgolion	Tud 22
Ysgolion Cymunedol	Tud 22
Buddsoddiad Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru Rhaglen	Tud 23
Adran 4:	
Proses	Tud 24
Trefniadau Llywodraethu	Tud 25
Cefnogaeth ar gyfer staff addysgu a chymorth	Tud 25
Adran 5:	
Camau Gweithredu	Tud 26
Ariannu'r Rhaglen	Tud 26
Dulliau o ariannu dyraniad yr Awdurdod	Tud 27

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am adolygu a moderneiddio'r holl ddarpariaeth ysgol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial llawn.

Mae'r Cyngor angen sicrhau bod nifer digonol o leoedd mewn ysgolion a bod y rheini o'r math cywir ac yn y lleoliadau iawn. Nid yw hyn yn broses syml gan fod yna nifer fawr o leoedd gwag mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd yn y Sir, tra bod diffyg lleoedd mewn ardaloedd eraill sydd methu cwrdd â'r galw lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae poblogaethau ysgolion yn cael eu cynnal gan blant a phobl ifanc sy'n byw y tu allan i'r ardal leol a hynny thrwy ddewis rhieni. Mae'r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol hen a seilwaith ategol yn anghynaliadwy. Felly, mae angen i ni adolygu ein darpariaeth ysgol:

- i sicrhau bod ein darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
- i wella ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgolion; ac i
- ddarparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau iawn.

Mae'r gwaith yn gofyn i:

- ragweld niferoedd disgyblion;
- rheoli'r cyflenwad o leoedd mewn ysgolion;
- rheoli'r galw drwy dderbyniadau a gweithdrefnau apelio;
- sicrhau bod fframwaith yn ei le i sicrhau gwelliant drwy newid sefydliadol mewn ysgol;
- bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd; a
- monitro a gwerthuso effaith penderfyniadau.

Rydym yn adolygu a moderneiddio'r ffordd y caiff addysg ei ddarparu drwy raglen dreigl o adolygiadau ardal. Rydym yn adolygu ysgolion ar fesul ardal, i wneud yn siŵr pan fyddwn yn gwneud newidiadau i drefniadaeth ysgolion, ein bod yn cymryd i ystyried unrhyw effaith bosibl ar ysgolion eraill cyfagos.

Pan fyddwn yn cynnal adolygiad ardal, byddwn bob amser yn ymgynghori â phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn yr ardal honno. Mae hyn er mwyn iddynt gael dweud eu dweud a bod yn rhan o benderfyniadau a wneir am ein hysgolion lleol.

Gall canlyniadau adolygiad ardal gynnwys uno ysgolion sy'n bodoli eisoes trwy gyfuniad o ffederasiynau ysgolion, uno ar un safle a ffafrir neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion sydd bellach ddim yn addas at y diben. Er mwyn cyflawni hynny bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, i wella seilwaith ein hysgolion ac i sicrhau bod adeiladau'r ysgolion yn addas ac yn darparu etifeddiaeth effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Adran 1: Newid a Moderneiddio

Ar y cyfan, mae'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni gan ddysgwyr Sir y Fflint yn cymharu'n dda ag Awdurdodau eraill yng Nghymru ac yn parhau i wella. Mae rhai enghreifftiau trawiadol hefyd wedi bod o foderneiddio addysg yn Sir y Fflint yn y blynyddoedd diwethaf ac wedi profi i sicrhau gwell cyfleoedd a chanlyniadau i ddysgwyr. Er enghraifft:

- darpariaeth cynradd o bob oed ar draws Sir y Fflint (gan gynnwys darpariaeth dosbarth meithrin); ac
- ysgolion cynradd newydd yng Nghei Connah a Shotton;
- ysgolion cynradd ac uwchradd arbenigol newydd yn y Fflint.

Mae buddsoddiadau cyfalaf mawr cyffrous pellach mewn addysg plant a phobl ifanc ar y gweill ac i fod yn weithredol erbyn 2016.

Fodd bynnag, mae yna hefyd achos cryf dros adnewyddu'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Materion allweddol i'r Cyngor yn cynnwys:

- parhau i godi safonau addysgol;
- creu'r amodau fel bod arweinwyr ysgolion yn llwyddo;
- sicrhau bod adeiladau ysgolion yn cynnig amgylchedd ddysgu a gweithio deniadol;
- lleihau nifer y lleoedd dros ben a'r annhegwch o amrywiad yn y gost fesul disgybl; a
- darparu gwydnwch yn erbyn gostyngiad mewn cyllid refeniw.

Gyrwyr Allweddol ar gyfer Moderneiddio Ysgolion

- **Gwella Addysg**
- **Arweinyddiaeth Cadarn mewn Ysgolion**
- **Adeiladau Addas**
- **Lleoedd heb eu llenwi**
- **Adnoddau Lleiedig**

Gwella Addysg

Ein nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol a'r awydd cryf am ddysgu gydol oes, ac wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i symud ymlaen trwy wahanol gamau o'u haddysg. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael rhaglen ddysgu a fydd yn cael ei bersonoli er mwyn gwneud y mwyaf o'u galluoedd unigol. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau galwedigaethol, menter, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a dysgu trwy chwaraeon. Bydd trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a hefyd darpariaeth ffydd.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i barhau i godi safonau, gyda thasgau allweddol yn cynnwys sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned yr ysgol;
- bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn cyd-destun lle mae pwysau cyllideb blynyddol;
- ymagwedd gyson tuag at gasglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu, gan gynnwys systemau olrhain, i dargedu cymorth ac ymyriadau; a
- ymrwymiad parhaus i ddatblygiad staff yr ysgol.

Arweinyddiaeth Cadarn

Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gadarn ar bob lefel. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau yn parhau i gynyddu. Mae'r disgwyliadau arweinyddiaeth ar benaethiaid yn sylweddol i sicrhau dysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf, gwerthuso a chodi safonau, datblygu gweithdrefnau hunan arfarnu cadarn a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Ar yr un pryd, mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid yn gostwng, yn enwedig yn ein hysgolion lleiaf.

Dylai ysgolion gael eu strwythuro fel eu bod yn ddigon mawr i ysgolion gael pennaeth heb ymrwymadau addysgu rheolaidd sylweddol. Byddai hyn yn rhoi'r amser angenrheidiol i benaethiaid ymgymryd â'r rôl arweiniol allweddol o fewn eu hysgolion neu ffederasiwn. Mae angen i ysgolion hefyd fod yn ddigon cadarn o ran maint er mwyn sicrhau bod cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addas mewn ysgolion unigol er mwyn galluogi cynllunio olyniaeth effeithiol.

Adeiladau Addas

Mae Estyn (yr arolygiaeth addysg yng Nghymru) yn nodi bod "gwelliannau yn ansawdd yr adeiladau wedi cael effaith fuddiol iawn ar ansawdd yr addysgu ac ysbryd y staff sydd or herwydd wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion."

Yr her i'r Cyngor yw darparu'r nifer cywir o leoedd yn y lleoliadau iawn. Wrth ymateb i'r her hon, mae angen i'r Cyngor wneud y ddarpariaeth addysgol gorau ar gyfer ei ardal, gan gymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth bresennol, materion cymunedol, ffactorau demograffig, cyflwr adeiladau ysgolion, lleoedd dros ben ac ansawdd yr amgylchedd dysgu ac addysgu.

Wrth adolygu adeiladau a safle'r ysgol, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y gofynion statudol a chanllawiau bwletin adeiladu perthnasol. Pan mae ad-drefnu yn gysylltiedig â buddsoddiad cyfalaf trwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru (LIC), bydd y meini prawf perthnasol gan Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau y bydd adeiladau ysgolion sy'n bodloni disgwyliadau'r 21ain ganrif yn addas i'r diben ac yn adnodd cymunedol.

Mae diffygion difrifol yn addasrwydd presennol nifer o adeiladau, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch dybryd sy'n cwestiynu hyfywedd tymor hir rhai o'n hysgolion presennol.

Mae ôl-groniad presennol o waith atgyweirio a chynnal a chadw yn dal i fod yn uchel ac yn £25.6m. Mae newid sefydliadol mewn ysgol yn parhau i fod yn offeryn allweddol i Gynghorau allu mynd i'r afael â diffygion o'r fath.

Mae ein rhaglen foderneiddio angen amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n ysbrydoli defnyddwyr i ddysgu. Mewn adeiladau ysgol newydd ac adeiladau wedi eu hadnewyddu byddwn yn ymdrechu i ddarparu:

- adeiladau a thir sy'n groesawgar i'r naill ysgol a'r gymuned tra'n darparu diogelwch digonol;
- ardaloedd dysgu yn fewnol (ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd eraill) sy'n gymesur, yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion y cwricwlwm;
- dyluniad hyblyg i alluogi newidiadau tymor byr i gynllun a defnydd, ac ar gyfer ehangu hirdymor neu gyfangiad;
- amodau amgylcheddol da drwyddi draw, gan gynnwys lefelau gorau posibl o olau ac awyru naturiol ar gyfer gwahanol weithgareddau;

- ardaloedd allanol wedi'u cynllunio'n dda gan gynnig amrywiaeth o wahanol leoliadau ar gyfer hamdden, dysgu a chwaraeon;
- dull cynaliadwy o ddylunio, adeiladu a gwasanaethu amgylcheddol;
- defnydd da o'r safle, gan gydbwysu anghenion cerddwyr, beicwyr a cherbydau a hwyluso mynediad cymunedol i gyfleusterau; a
- Gwneud y mwyaf o'r defnydd o dechnolegau newydd i gefnogi dysgu effeithiol a gweinyddu a rheoli effeithlon

Cyfarwyddyd Rheoli Asedau Cenedlaethol

Gosododd Llywodraeth Cymru darged y dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru fod â Chynllun Rheoli Asedau (CRhA) yn ei le. Y nod oedd sicrhau gwell gwerth am arian o asedau cyfalaf. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal pedwar prif fath o asedau sy'n werth mwy na £8.8 biliwn (amcangyfrifon 2001) sef:

- adeiladau a thir, gydag ysgolion yn ffurfio canran uchel o'r portffolio;
- swyddfeydd gweinyddol a depos cerbydau;
- eiddo anweithredol, hy eiddo dros ben yn aros i'w werthu, asedau sy'n cael eu hadeiladu, eiddo masnachol a diwydiannol; ac
- asedau seilwaith, yn bennaf ffyrdd.

Mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal yr asedau hyn ac ôl-groniad cynnal a chadw sylweddol (sy'n parhau i dyfu). Mae Cyfarwyddyd Rheoli Asedau gan CLAW (Consortium Awdurdodau Lleol yng Nghymru) yn gwneud y Datganiadau canlynol: "Ar ei orau gall eiddo gweithredol gyflenwi darpariaeth gwasanaeth effeithiol. Ar ei waethaf gall defnyddio adnoddau staff ac ariannol a bod yn rhwystr wrth drosglwyddo gwasanaethau. Y prif ffyrdd ymarferol y gall yr ystad weithredol effeithio'n andwyol ar drosglwyddo gwasanaethau yw:

- a) Gweithredu o ormod o adeiladau
- b) Tan-wariant ar waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio
- c) Gweithredu o eiddo aneffeithiol
- d) Tan-fuddsoddi mewn adeiladau / cyfleusterau priodol Dylai'r broses adolygu, felly, nodi:
 - a) Eiddo dros ben
 - b) Ôl-groniad cynnal a chadw a lefel y difrifoldeb
 - c) Addasrwydd ac amrywiadau mewn gofynion glasbrint o angen gwirioneddol
 - d) Gofynion buddsoddi / derbyniadau cyfalaf sydd ar gael.

Ysgolion Sir y Fflint – Ystadegau Rheoli Asedau

Mae cyflwr yr ysgol yn cael ei raddio gan ddefnyddio'r meini prawf canllawiau rheoli asedau cenedlaethol canlynol: -

Gradd A - Da. Perfformio fel y bwriedir gweithredu'n effeithiol

Gradd B - Boddhaol. Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos mân ddirywiadau

Gradd C - Gwael. Arddangos diffygion mawr ac / neu ddim yn gweithredu fel y bwriedir

Gradd D - Gwael. Bywyd wedi dod i ben a/neu risg difrifol o fethiant ar fin digwydd.

Ysgolion Sir y Fflint – Categori Cyflwr (Medi 2014)

Categori	Canran%
A	28
B	60
C	9
D	3

Mae pa mor addas yw'r ysgol yn cael ei raddio gan ddefnyddio'r meini prawf canllawiau rheoli asedau cenedlaethol canlynol: -

- A **Da.** Cyfleusterau addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles mewn ysgolion.
- B **Boddhaol.** Perfformio fel y bwriadwyd ond nid yw'n cefnogi'r Cwricwlwm mewn rhai ardaloedd.
- C **Gwael.** Dulliau addysgu wedi rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth ysgolion.
- D **Gwael** Mae adeiladau yn atal gallu'r staff yn ddifrifol i gyflwyno'r cwricwlwm

Ysgolion Sir y Fflint – Categori Addasrwydd (Medi 2014)

Categori	Canran%
A	36
B	49
C	11
D	4

Lleoedd heb eu llenwi mewn Ysgolion

Mae Estyn wedi gwneud gwaith ymchwil ar sut y mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i'w gwario ar wella deilliannau i ddisgyblion; cyhoeddwyd eu hadroddiad ym mis Mai 2012. Dywedodd Estyn y gallai dileu lleoedd dros ben mewn rhai ysgolion gostio llawer mwy na'r arbedion refeniw a gyflawnir o'u symud. Mewn achosion eraill, maent yn gweld bod cael gwared ar ysgol 'dros ben' wedi cynhyrchu llawer mwy o arbedion na chael gwared ar y lleoedd dros ben oddi mewn iddo. Nododd Estyn fod cau ac uno ysgolion yn sicrhau'r arbedion mwyaf ar gyfer ail-fuddsoddi i godi safonau ond yn nodi bod cynlluniau o'r fath yn aml angen buddsoddiad ariannol ac ymrwymiad gwleidyddol. Pwysleisiodd Estyn hefyd ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol i ddefnyddio data yn effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf a gwneud defnydd effeithlon o'u hasedau.

Mae'r adolygiad i gostau gweinyddu addysg yng Nghymru yn argymhell y dylai Awdurdodau Lleol anelu at gadw dim mwy na 10% o leoedd dros ben yn gyffredinol ac fe dderbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, hyd yma nid oes unrhyw awdurdod lleol wedi cyflawni a chynnal y lefel a argymhellir o leoedd dros ben ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.

Arweiniodd hyn yn Hydref 2012 i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol yn gofyn iddynt ddangos strategaeth i leihau lleoedd heb eu llenwi hyd at 15% erbyn mis Ionawr 2015. Ym mis Ionawr 2013, roedd tua 4,000 o leoedd gwag yn Ysgolion Sir y Fflint (15.4 y cant o'r cyfanswm) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.

Gan ddefnyddio Meini Prawf Swyddfa Archwilio Cymru mae ein hysgolion wedi eu categorio fel a ganlyn: -

- A llai na 10% o leoedd heb eu llenwi neu 3% dros eu cynhwysedd
- B 10-25% o leoedd heb eu llenwi neu 5 -10% dros eu cynhwysedd
- C mwy na 10% dros eu cynhwysedd
- D mwy na 25% o leoedd heb eu llenwi, neu
- D ysgolion bach gyda llai na 90 o leoedd a mwy na 25% a 30 o leoedd dros ben

Ysgolion Sir y Fflint – Categori Lleoedd heb eu Llenwi (Medi 2014)

Categori	Canran%
A	36
B	37
C	3
D	24

Adnoddau Lleiedig

Mae canran y lleoedd dros ben mewn ysgolion Sir y Fflint yn parhau i fod yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 10%.

Gan fod cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei yrru i raddau helaeth gan nifer y disgyblion, mae lleoedd dros ben yn golygu fod swm anghymesur o arian yn cael ei wario ar seilwaith (megis adeiladau) a'r "costau sefydlog" o redeg ysgol (megis arweinyddiaeth a gweinyddu).

Gallai'r arian hwn gael ei ddefnyddio yn well i sicrhau bod y cymhareb disgybl i athro yn cael ei leihau i wneud gwahaniaeth uniongyrchol i ddysgwyr. Gyda chyllid gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei leihau dros y blynyddoedd nesaf mae'r achos i ail-flaenoriaethu a newid yn dod yn hyd yn oed yn fwy pwysig.

Adran 2: Modelau a Pholisiau Trefniadaeth Ysgolion

Ni fyddai un model o ysgolion ar draws y Sir yn briodol o ganlyniad i amrywiaeth mewn dwysedd poblogaeth, patrymau o ddewisiadau rhieni a goblygiadau o ran cludiant. Mae darpariaeth cynradd angen bod yn gymharol agos at gartrefi teuluol, tra mae angen mwy o faint a graddfa i gyflwyno'r arian i gefnogi ehangder y cwricwlwm sydd ei angen ar bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd.

Mae pob ysgol Sir y Fflint yn rhan o glystyrau traws-gyfnod sy'n cynnwys o leiaf un ysgol uwchradd ag ysgolion cynradd sy'n bartneriaid. Mae'r ysgolion clwstwr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cyfleoedd dysgu cyson o ansawdd uchel ac ar draws yr holl ysgolion yn yr ardal. Maent yn rhannu arbenigedd mewn arweinyddiaeth ysgolion, cynhwysiad, addysgu a dysgu, gan gynnwys cefnogi Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Maent yn rhannu adnoddau, hyfforddiant a gwasanaethau cymorth busnes. P'un ai fod darpariaeth cynradd ac uwchradd wedi'u lleoli ar un safle neu mewn ystod o leoliadau, mae ysgolion wedi ymrwymo eu hunain i gyflawni cyfleoedd dysgu effeithiol a llwybrau i bawb yn eu hardal leol.

Dylai ysgolion Sir y Fflint fod yn datblygu modelau sy'n gweithredu yn unol â'r adolygiad Hill a'r model cenedlaethol ar gyfer Gwella ysgolion. Mae strategaeth genedlaethol yn rhagweld clystyrau yn defnyddio trefniadau sydd fwyfwy'n debyg i drefniadau ysgol ffederal ffurfiol gyda chyrrff llywodraethu ysgolion unigol yn cytuno i sefydlu cyd-bwyllgor â phwerau dirprwyedig a dewisiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyllideb gyfunol gyfyngedig. Mae ysgolion sy'n gweithio yn y modd hwn yn cyd-fynd yn gynyddol o ran llywodraethu, rheolaeth, datblygu arweinyddiaeth, cyflwyno'r cwricwlwm, staffio a materion cynhwysiad.

Ffederasiwn

Mae ffederasiwn o ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd drwy broses strwythuredig ffurfiol gan rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau holl ysgolion, staff a disgyblion yn y ffederasiwn hynny.

Mae'r term ffederasiwn yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio sawl math o gydweithio rhwng ysgolion. Mae'r broses statudol o ffederasiwn yn aml yn cael ei gyfeirio ato fel "ffederasiwn caled." Yn aml, gelwir trefniant anffurfiol, anstatudol rhwng ysgolion yn "ffederasiwn meddal" neu'n 'gydweithio', lle mae ysgolion wedi gwneud ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd drwy ryw fath o lywodraethu ar y cyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau newydd ynghylch ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 22 Mai, 2014 yn rhoi effaith i bwerau Cyngor i ffedereiddio ysgolion. (Mae llywodraethwyr ysgol eisoes â phwerau i ffederaleiddio

trwy ddewis dan y darpariaethau a gyflwynwyd yn 2010). Mae'r pwerau hyn bellach wedi'u cyfuno yn Rheoliadau 2014:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140522-guidance-on-federation-of-schools-en.pdf>

Yng nghyd-destun moderneiddio ysgolion, nid yw'r Cyngor wedi symud ymlaen â threfniadau ffederal mewn ysgolion, fel o dan yr hen reoliadau nid oedd gan yr Awdurdod Lleol y pwerau i wneud hynny.

Manteision Trefniadau Ffederal

Safonau Addysgol

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan Ofsted (Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau) ym mis Medi 2011 ar effaith ysgolion ffederal yn Lloegr, bu gwelliannau amlwg yn y tri maes allweddol o addysgu a dysgu, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion

Gellir gweld copi o'r adroddiad yn:

<http://www.ofsted.gov.uk/resources/leadership-of-more-one-school>

Rhoddyd tair prif reswm ar gyfer ffedereiddio. Mae'r Cyngor wedi cysylltu â rhai ysgolion i helpu'r rhai hynny sy'n ei chael hi'n anodd; rhai eraill oedd ysgolion bach sydd mewn perygl o gau neu'n methu â recriwtio staff o ansawdd uchel; ac eraill oedd y rhai sy'n ceisio cryfhau addysg disgyblion yn gyffredinol yn eu cymunedau.

Roedd ffederasiynau a sefydlwyd i wella capasiti ysgolion bach wedi llwyddo i ehangu a chyfoethogi'r cwricwlwm a'r gofal, arweiniad a chymorth i ddisgyblion. Mae'r rhain hefyd wedi arwain at well cyrhaeddiad ar gyfer grwpiau o ddisgyblion megis disgyblion diamddiffyn a'r rheini ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau.

Mewn ffederasiynau da, dyma'r arweinwyr yn gwneud y mwyaf o adnoddau cynyddol a chyfluoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a defnyddiwyd y rhain i gyflawni eu blaenoriaethau. Yn hanfodol, cafodd hyfforddiant a datblygiad eu teilwra'n ofalus i gwrdd ag anghenion yr ysgol.

Gall rhannu'r cryfderau hyn, drwy ffederasiwn, ddod â manteision i ddysgwyr ar draws nifer o ysgolion. Gall cryfderau ysgol ddod mewn sawl ffurf, gan gynnwys arweinyddiaeth, staff, adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau. Trwy gydweithio gyda threfniadau ffederasiwn a phartneriaeth eraill, mae ysgolion yn gallu:

- codi eu safonau, er enghraifft, trwy rannu hyfforddiant ac arferion gwaith, gan annog eu staff i gefnogi ei gilydd ac i ddatblygu cwricwlwm integredig a pholisïau bugeiliol;
- cynnig ystod ehangach o gyfluoedd i ddisgyblion, er enghraifft, trwy gynnal gweithgareddau ar y cyd neu rannu cyfleusterau neu athrawon a allai fod yn anodd eu cynnal ar eu pennau hunain;

- datblygu ystod o wasanaethau a gweithgareddau estynedig i ddisgyblion a'r gymuned ehangach;
- gwella eu harweinyddiaeth a rheolaeth, er enghraifft, drwy rannu brifathrawiaeth; a
- gwneud y gorau o rannu adnoddau, gan fanteisio ar arbedion maint.

Recriwtio

Yn Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon (NAHT) 2011 nodwyd bod tua 36% o swyddi penaethiaid ysgolion cynradd, 19% o swyddi penaethiaid ysgolion uwchradd a 39% o swyddi penaethiaid mewn ysgolion arbennig yn ôl y sôn heb eu llenwi ar ôl hysbyseb eleni. Y canrannau ar gyfer y llynedd oedd 34% ar gyfer ysgolion cynradd, 19% ar gyfer uwchradd a 43% ar gyfer ysgolion arbennig. Mae hyn yn awgrymu bod pob sector yn dal i wynebu cryn anhawster i lenwi eu swyddi.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran sylweddol o swyddi penaethiaid gwag yn deillio o ymddeoliad (65% ar gyfer ysgolion cynradd, 61% ar gyfer uwchradd ac 82% o swyddi gwag mewn ysgolion arbennig). Mae mwy o benaethiaid yn dal i ymddeol cyn 60 oed.

Mae ysgolion bach yn grŵp arall sy'n ymddangos i wynebu mwy o heriau na'r arfer wrth geisio penodi pennaeth newydd.

Gall trefniadau ffederal gynorthwyo mewn ardaloedd lle mae anawsterau neu heriau yn sgîl penodi penaethiaid.

Anfanteision Trefniadau Ffederal

Mae trefniadau ffederal mewn ysgolion yn aml yn methu â bodloni nifer o'r ffactorau allweddol o foderneiddio ysgolion. Mae materion allweddol yn cynnwys:

- **Adeiladau Addas** – Mae trefniadau ariannu'r rhaglen 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar resymoli ystâd yr ysgol i gynhyrchu arbediad referniw i alluogi mynediad at fenthyca darbodus. Yn ogystal, ceir achosion o werthu eiddo dros ben sydd hefyd yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf, a defnyddir y ddau i ddod o hyd i 50% o gyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r rhaglen. Ni fydd trefniadau ffederal yn rhesymoli'r ystâd, felly bydd yr arbediad referniw naill ai yn ddim arbediad o gwbl neu'n gyfyngedig i arbedion bach posibl yn nyraniadau yr ysgol a dim ond os y gellir newid dyraniadau a / neu strwythurau fformiwla.
- **Lleoedd heb eu llenwi** - Gan nad yw'r trefniadau Ffederal yn rhesymoli ystâd ysgolion, mae lleihau lleoedd heb eu llenwi wedi'i gyfyngu i beidio â defnyddio rhai rhannau o'r ysgol ond eu cadw mewn cyflwr da ar yr un pryd, efallai na fydd hynny'n bosib mewn ysgolion unigol oherwydd rhesymau gweithredol, ymarferol neu resymau sy'n gysylltiedig â'r adeilad

- **Adnoddau Lleiedig** - nid yw trefniadau Ffederal yn cefnogi arbedion refeniw mawr, ag yn hytrach gallai arbedion bach posibl yn nyraniadau'r ysgol o bosibl fod yn gyraeddadwy trwy ddyraniadau'r fformiwla os caiff strwythurau staffio eu newid. Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r adeilad yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd.

Modelau Moderneiddio

Gall moderneiddio ysgolion gynnwys:

- parhâd ysgolion presennol;
- uno ysgolion presennol trwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol neu uno ar un safle a ffefrir, neu safleoedd lluosog;
- datblygu ysgolion ardal newydd;
- cydleoli ysgolion cynradd ac uwchradd ar yr un campws fel y cam cyntaf yn y symudiad tuag at ddarpariaeth ardal 3-16/18;
- datblygu ysgolion pob oed; a
- cau ysgolion sydd bellach ddim yn addas at y diben, neu sydd eu hangen fel rhan o'r rhwydwaith o ddarpariaeth.

Darpariaeth Gynradd

Byddai'r polisi trefniadaeth ysgolion 2010 yn Sir y Fflint yn sbarduno adolygiad o ysgolion unigol:

- lle mae ganddynt 25% neu fwy o leoedd dros ben; neu
- os bydd yr ysgol yn cymryd mesurau arbennig.

Er y byddai'r Cyngor yn parhau i gomisiynu adolygiad o ddarpariaeth leol lle'r oedd pryderon ansawdd wrth i'r ysgol orfod cymryd mesurau arbennig neu lle mae mwy na 25% o leoedd gwag, mae'r sefyllfa o ran y meini prawf trefniadaeth ysgolion eraill wedi newid ers 2010.

Mae'r sbardunau ar gyfer newid a nodir yn y cyflwyniad yn rhai go iawn. Mae lefel yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi ysgolion bach neu wedi'u tanysgrifio yn lleihau yn gyflym. Mae angen sicrhau bod pob ysgol a safleoedd ysgolion yn gallu darparu plant â'r cyfleoedd ehangaf posibl.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio ysgol fach fel un â 91 o ddisgyblion neu lai. Mae Estyn wedi nodi'r heriau addysgol sy'n wynebu ysgolion neu safleoedd bach (Estyn – Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru, 2003) fel:

- addysgu dosbarthiadau oedran cymysg sy'n cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran;
- maint cyfyngedig i grwpiau o gyfoedion a digonolrwydd yr her;
- cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol;
- anawsterau o ran recriwtio a chadw staff;
- beichiau gormodol ar staff; a
- mwy o arbenigedd sy'n ofynnol i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Yn fwy cadarnhaol, mae ysgolion ar draws Sir y Fflint a ledled Cymru yn gweithio'n fwy cydweithredol trwy drefniadau cydweithio o ysgol i ysgol. Yn lleol, mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried bod ad-drefnu ysgolion cynradd cadarn yn gallu mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau a wynebir gyda threfniadaeth ysgolion.

Byddai trefniadaeth ysgolion cynradd sy'n gadarn a chynaliadwy yn galluogi:

- pennaeth ag ymrwymiad amser sy'n o leiaf 40% i arwain a rheoli. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cynyddu mewn perthynas â maint yr ysgol. Mae pob ysgol angen capasiti arweinyddiaeth digonol ac mae'n aneffeithlon defnyddio penaeithiaid fel athrawon dosbarth ar gyflog uchel;
- mwy o fudd i ddisgyblion wrth rhyngweithio â chyfoedion;
- mwy o gyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion drwy ddilyn ystod ehangach o weithgareddau; gwella gallu plant i greu perthynas a dathlu amrywiaeth;
- uchafswm maint dosbarth o 30 yn y Cyfnod Sylfaen;
- lleihau dosbarthiadau Cyfnod Allweddol cymysg;
- mwy o ddewisiadau ar gyfer trefniadaeth dosbarthiadau o fewn ysgolion;
- caniateir arbenigedd staff fel athrawon i arwain un pwnc ar draws yr ysgol, a thrwy hynny yn ennill mwy o ffocws ar, a dyfnder wrth gyflwyno pwnc;
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ymhlith staff, gan roi cyfle i ddatblygu cryfderau ac arbenigedd mewn meysydd ehangach, gan gynnwys nifer o bynciau di-graidd.
- gwell proses o recriwtio a chadw gafael ar staff;

- cyfle i gael cyfleusterau dysgu ac addysgu ardderchog;
- ystod o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned;
- gwell amgylcheddau dysgu a gweithio, a dim ystafelloedd dosbarth symudol;
- arbedion maint ar gyfer gwasanaethau cymorth gweinyddol a busnes llawn amser;
- ariannu teg a digonol fesul disgybl i alluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial, tra'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Bydd y ddarpariaeth ysgolion cynradd yn y dyfodol yn ceisio dilyn un o fodelau a argymhellwyd gan y Cyngor Sir a ddisgrifir isod. Y modelau yw:

a) 1 dosbarth mynediad neu fwy - ysgol gynradd yn darparu o leiaf 210 o leoedd llawn amser neu fwy (tua 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn) a gyda dim mwy na 25% o leoedd dros ben. Modelau eraill gydag o leiaf un dosbarth mynediad y flwyddyn, er enghraifft, 1.5, 2, 2.5 neu 3 dosbarth mynediad y flwyddyn hefyd yn effeithlon ac yn effeithiol.

b) Ysgolion gyda llai nag 1 dosbarth mynediad y flwyddyn, ond gyda mwy na 0.5 dosbarth mynediad y flwyddyn gan ddarparu o leiaf 105 o leoedd llawn amser (tua 15 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn) lle y bo angen, gellir ystyried ffurfio ysgol ffederal neu ysgol ardal. Byddai ysgolion ardal yn cael eu ffurfio yn unol â model a ffafrir gan y Cyngor o ran gweithredu fel y gwelir yn (a) uchod.

Lle mae'r ysgol yn methu â chael digon o ddisgyblion o ran niferoedd neu fod adolygiad ardal yn penderfynu bod ysgol yn cael ei chau, mae angen cyhoeddi cynigion statudol i allu cau unrhyw ysgol gynradd, gan gynnwys y rhai o fewn ffederasiwn. Ni fyddai angen hysbysiadau statudol wrth gau safle penodol mewn ysgol gynradd.

Darpariaeth Uwchradd

Mae'r Cyngor eisiau i holl ddarpariaeth uwchradd prif ffrwd i ddarparu'r amgylcheddau dysgu gorau posibl i blant a phobl ifanc, tra'n darparu'r ystod ehangaf posibl o gyfleoedd cwricwlwm. Fe sefydlodd polisi 2010 yr egwyddor y dylid cael adolygiad o ddarpariaeth:

- lle mae mwy na 25% o leoedd dros ben neu lai na phedwar dosbarth y flwyddyn (600 o ddisgyblion) yn 11-16 oed, ac yn llai na 120 o fyfyrwyr yn y sector ôl-16;
- byddai'r Cyngor yn parhau i gomisiynu adolygiad o ddarpariaeth leol lle'r oedd pryderon ynglŷn ag ansawdd os, er enghraifft, byddai ysgol yn cymryd mesurau arbennig.

Mae hefyd yn dal i fod yn wir nad yw'n ymarferol i ysgol o lai na ryw bedwar dosbarth y flwyddyn i gynnal ehangder ac ansawdd o ran cwricwlwm digonol er mwyn cwrdd â hawliau dysgwyr. Nid yw'n ymarferol chwaith i ysgol uwchradd â llai na tua 600 o ddisgyblion i gynnal y cyfleusterau a ddisgrifir yng ngweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r Cyngor felly yn derbyn y bydd y maint lleiaf ar gyfer unrhyw ysgol uwchradd newydd yn golygu pedwar dosbarth sy'n darparu 600 o leoedd i ddisgyblion 11-16 oed. Nid yw hynny wedi newid ers sefydlu'r polisi yn 2010.

Mae cyllid ar gyfer darparu addysg ôl-16 yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng grant gan Lywodraeth Cymru, sy'n lleihau bob blwyddyn gan greu pwysau cynyddol sylweddol ar ddsbarthiadau chweched dosbarth bach. Gall chweched dosbarth bach arwain at ryngweithio cyfyngedig rhwng myfyrwyr sy'n lleihau effeithiolrwydd y dysgu (Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Er mwyn diogelu hawl dysgwyr i gael mynediad at ystod eang o gyfleoedd dysgu sydd o ansawdd uchel (ac yn unol â 'Pholisi Trawsnewid' Llywodraeth Cymru), bydd y Cyngor yn adolygu darpariaeth ôl-16 mewn unrhyw ysgol uwchradd lle mae nifer y disgyblion o fewn y 6ed dosbarth yn llai na 150 am dair blynedd yn olynol. Bydd unrhyw adolygiad yn ystyried a ddylai'r ysgol fod yn ysgol ar gyfer 11-16 oed neu 3-16 oed (pan fo'r safle yn caniatáu).

Mae'r Cyngor eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau i greu Canolfan Chweched Dosbarth newydd yng Ngogledd Sir y Fflint mewn partneriaeth â Choleg Cambria ac ysgolion lleol. Mae'r polisi hwn yn cadw'n gyson â'r datblygiad hwn a datblygiadau lleol eraill.

Pwyntiau Sbarduno

Fel y nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen, y gyrywyr allweddol ar gyfer newid a geir yn y strategaeth hon sy'n sbarduno arolwg yw: -

- **Gwella Addysg**
- **Arweinyddiaeth Cadarn mewn Ysgolion**
- **Adeiladau Addas**
- **Lleoedd heb eu llenwi**
- **Adnoddau Lleiedig**

Mae'n ddoeth i adnabod unrhyw newid mewn amgylchiadau ysgolion ymhellach a fyddai o bosib yn 'sbarduno' arolwg yn y fan a'r lle o sefyllfa'r ysgol, waeth beth yw ei le clustnodedig yn y Cynllun Gweithredu hwnnw.

Mae'r pwyntiau 'sbarduno' yn cael eu nodi o fewn y ffactorau allweddol fel a ganlyn:

Gwella Addysg

- Lle mae safonau ysgolion yn disgyn o dan lefelau priodol a bod hynny'n achosi pryder sylweddol i GwE a (T O Marah) neu'r Awdurdod Lleol.
- Pan fydd ysgol yn cael ei gynnwys yn y categori ffurfiol o bryder yng nghylch arolygu Estyn

Arweinyddiaeth Cadarn mewn Ysgolion

- Lle mae GwE a (T O Marah) neu'r Awdurdod Lleol yn bryderus iawn am yr ysgol.
- Lle mae problemau recriwtio Pennaeth.

Adeiladau Addas

- Lle mae pryder lechyd a Diogelwch arwyddocaol.
- Lle mae cyflwr a/neu addasrwydd yr adeilad yn cael ei gategoreiddio fel categori D fel y cofnodir ar system rheoli asedau'r Cyngor.
- Os oes gan ysgol sawl safle /a neu sawl ystafell ddosbarth symudol

Lleoedd heb eu llenwi

- Lle mae lleoedd gwag mewn ysgolion wedi codi'n sylweddol [yn methu cwrdd â gyrywyr yr ALI a Llywodraeth Cymru]
- Lle nad yw ysgol wedi cyrraedd 25% o leoedd heb eu llenwi ond mae lleoedd heb eu llenwi wedi rhagori ar 10% am dair blynedd yn olynol.

Adnoddau Lleiedig

- Lle nad yw'r ysgol leol yn gwasanaethu'r boblogaeth leol.

Adran 3: Polisiâu Sylfaenol

Derbyniadau

Mae Polisi Derbyn Cyngor Sir y Fflint yn galluogi rhieni, gofalwyr a myfyrwyr i fynegi eu dymuniad i gael eu derbyn i'r ysgol o'u dewis. Os oes lleoedd ar gael yna gellir sicrhau y broses o dderbyn. Defnyddir meini prawf blaenoriaethu os oes mwy o geisiadau nag o leoedd mewn ysgol unigol, gyda lle am apêl annibynnol os nad yw'r penderfyniad yn cael ei dderbyn gan deulu. Trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion naill ai'n gyfrifoldeb y Cyngor Sir (Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol) neu'r Corff Llywodraethu (Ysgolion Sefydledig a Gwirfoddol a Gynorthwyr).

<http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Admissions/Guide-to-Education-Services-2015.pdf>

Cludiant

Mae Polisi Trafnidiaeth Cyngor Sir y Fflint yn cynnig cludiant am ddim yn unol â darpariaeth statudol i ddisgyblion sy'n byw dros ddwy filltir (cynradd) neu 3 milltir (uwchradd) o'u hysgol briodol agosaf, ac i ddisgyblion sydd methu cerdded i'r ysgol oherwydd anghenion addysgol neu feddygol arbennig, anabledd neu os yw'r llwybr yn cael ei ystyried i fod yn "beryglus". Cludiant am ddim hefyd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd o dan y polisi presennol i'r ysgol Gymraeg agosaf, ar gyfer dysgwyr ôl-16 i safleoedd penodol yn unig, i ysgolion enwadol lle mae mynediad i'r ysgol ar sail enwadol ac yn amodol ar ddarparu tystiolaeth o lynu at ffydd yr ysgol, ac i ddysgwyr y mae eu rhieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith ac yn byw mwy na 2.5 milltir o'u hysgol briodol agosaf.

<http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf>

Cefnogi a Chynnal yr Iaith Gymraeg

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014-2017 Cyngor Sir y Fflint yn nodi y bydd yn:-

- ymdrechu i **gynyddu** nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn ei ffiniau, gyda'r nod o greu sir a gwlad gynyddol ddwyieithog; a
- chefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (hy yn rhugl yn y Saesneg a'r Gymraeg).

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/Welsh-in-Education-Strategic-Plan-2014-2017.aspx>

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant

Strategaeth Cynhwysiant Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod pob ysgol yn debygol o gael rhai plant ar y gofrestr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Felly mae goblygiadau'n perthyn i bob adolygiad ysgol neu faes ar gyfer darpariaeth ADY, boed o ran mynediad i'r cwricwlwm neu fynediad yn gorfforol i adeiladau'r ysgol.

Mae moderneiddio ysgolion yn rhoi'r cyfle i ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod cymorth ADY priodol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion. Gall hyn fod mewn ysgolion prif ffrwd, mewn canolfannau adnoddau arbenigol sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd, neu lle bo'n briodol, yn yr ysgolion arbennig a foderneiddiwyd yn ddiweddar yn Sir y Fflint. Mae moderneiddio ysgolion arbennig Sir y Fflint ynddo'i hun yn darparu cyfleoedd i ffyrdd newydd o ffurfweddu darpariaeth allgymorth i gynnal pobl ifanc mewn darpariaeth addysgol lleol.

Dylai ysgolion unigol ac adolygiadau ardal leol ystyried strategaethau i ddarparu:

- darpariaeth briodol a phontio di-dor i blant ag ADY;
- mynediad priodol i bobl ag anableddau a hefyd i allu cynnwys plant ag ADY;
- gwella presenoldeb ac ymddygiad, ynghyd â lleihau bwllo; a
- sicrhau gwell cyrhaeddiad ar gyfer y rhai diamddiffyn neu sydd mewn perygl o gael eu heithrio.

[http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/Children--Young-People-with-ALN/Policy-Framework-for-Children--Young-People-with-Additional-Learning-Needs-\(SEN\)-April-2007.pdf](http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/Children--Young-People-with-ALN/Policy-Framework-for-Children--Young-People-with-Additional-Learning-Needs-(SEN)-April-2007.pdf)

Ysgolion a Gynorthwyr yn Wirfoddol

Mae Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr yn cael eu cynnal ar y cyd gan y Cyngor Sir ac naill ai'r Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Babyddol Rufeinig. Mae'r adeiladau ysgolion hyn yn perthyn i'r Esgobaeth ac felly ni allwn gynnig newidiadau strwythurol i'r adeiladau hyn. Mae gan ysgolion a gynorthwyr hefyd fynediad at ffrydiau ariannu cyfalaf ar wahân yn uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Esgobaethol er mwyn sicrhau bod ysgolion a Gynorthwyr yn cael eu lleoli'n briodol ac yn addas at y diben.

TGCh mewn Ysgolion

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn annog ysgolion i barhau i drawsnewid dysgu ac addysgu, trwy sicrhau:

- i fanteisio ar y ffordd y mae technoleg yn esblygu, a chydabod sut y mae plant a phobl ifanc yn defnyddio technoleg;
- bod athrawon a dysgwyr yn cael mynediad diogel, dibynadwy a di-dor at TGCh yn yr ystafell ddosbarth, gan hyrwyddo cynhwysiant;
- bod pob man addysgu a dysgu (lle bo hynny'n ymarferol) gyda chyfleuster digidol;
- bod gan bob ysgol gysylltedd band eang rheolaidd a dibynadwy o led band priodol, sy'n cael ei fonitro a'i adolygu yn gyson yng ngoleuni defnyddiau sy'n dod i'r amlwg;
- bod gennym systemau gweinyddol a rheoli gwybodaeth effeithlon sy'n cefnogi addysgu a dysgu; a
- bod gan ddysgwyr fynediad at ddysgu y tu mewn a thu allan i'r ysgol gan gefnogi cydweithio â'i gilydd, eu hathrawon a'r gymuned ddysgu ehangach.

Ysgolion Cymunedol

Mae ysgolion yn aml yn ganolbwynt cymuned ond weithiau ni chaiff digon o ddefnydd ei wneud o'r adeiladau yn y nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae Cyngor Sir y Fflint yn annog ysgolion i chwarae rhan bwysig a chanolog yn y gymuned. Nid yn unig mae ysgolion yn darparu addysg i ddysgwyr ac yn creu ysbryd gymunedol ymhlith rhieni a gofalwyr, ond mae ganddynt hefyd y cyfle, ac yn aml iawn y cyfleusterau i estyn allan i'r gymuned gyfan. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y defnyddir ysgolion nid yn unig ar gyfer clybiau ar ôl ysgol i blant a phobl ifanc, ond hefyd fel canolfan posibl ar gyfer gwasanaethau ychwanegol fel gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, llyfrgelloedd a gweithgareddau cymunedol / addysg teulu.

Dangosodd gwaith a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai ffactor allweddol mewn ysgol lwyddiannus yw perthynas agos â'r gymuned ehangach. Mae ymrwymiad â'r gymuned yn gwella cyflawniad a chymhelliant ysgol ac o fudd i'r disgyblion yn yr ysgol honno.

Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru

Dim ond wrth weithio mewn partneriaeth â chymunedau a Llywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad mewn newid y gall Sir y Fflint gyflawni'r gwaith o foderneiddio ysgolion. Bydd opsiynau moderneiddio ysgolion yn gyrru strategaeth fuddsoddi a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion yr ysgolion.

Cyflwynwyd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i gymryd lle'r rhaglen Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (SBIG) blynyddol. Yn flaenorol mae Cynghorau wedi derbyn Grant Gwella Adeiladau Ysgolion blynyddol i wella stoc ysgolion. Fodd bynnag, mae swm y cyllid sydd ar gael wedi cyfyngu'r modd o allu meddwl yn strategol ac wedi'u cyfyngu i brosiectau llai. Mae Rhaglen Adeiladu Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllunio strategol gan awdurdodau lleol er mwyn darparu adeiladau ysgol newydd neu well, tra'n lleihau lleoedd dros ben.

Mae hyn yn amlwg ym Mand A Sir y Fflint, gyda rhaglen fuddsoddi mewn ysgolion gwerth £64m wedi'i gynllunio rhwng 2014 a 2017.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn bwriadu cyflwyno Band B y rhaglen o 2019 ymlaen. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach yn y deuddeg mis nesaf ynglŷn â sicrhau cam nesaf y buddsoddiad.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn datblygu ei strategaethau i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi posibl a allai fod ar gael trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae meini prawf cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion 21ain Ganrif o bosib yn golygu mai dim ond prosiectau moderneiddio a fydd yn cael eu hariannu a bod prosiectau adnewyddu neu gynnal a chadw ddim yn gymwys am grant drwy'r rhaglen hon.

Adran 4: Y Broses

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr ysgol a staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill cyn gwneud cynigion ar gyfer unrhyw newidiadau o ran moderneiddio ysgolion.

Bydd y broses ymgynghori yn cynnwys cwblhau a chyflwyno asesiadau effaith sy'n berthnasol i'r nodweddion canlynol; cymunedol, trafnidiaeth, adeiladau, cydraddoldeb ac iaith ac wrth gwrs bydd hefyd yn golygu gwerthusiad ariannol. Yn ystod y cyfarfodydd hynny gyda rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn gofyn iddynt i fynegi eu barn.

Bydd yr ymatebion o bob proses ymgynghori ffurfiol yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor Sir, ynghyd ag asesiadau effaith, gwerthusiad o ddewisiadau ac argymhellion swyddogion. Bydd y Cabinet yna'n penderfynu ar sut i symud ymlaen a gweithredu ar gyfer ardal / ysgol unigol.

Yn weithredol, bydd y gwaith o weithredu'r rhaglen yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Moderneiddio Addysg ac yn cael ei reoli yn unol â Fframwaith Rheoli Prosiect Sir y Fflint (gan gyd-fynd â Prince2). O ganlyniad, bydd gwaith prosiect yn gyson o ran strwythur a thechneg ond wedi'i deilwra yn dibynnu ar lefel yr adolygiad.

Cychwynnir ar y cynigion statudol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth ysgol yn cael eu dechrau dim ond ar ôl i'r Cabinet gytuno iddynt.

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 newydd yn gwneud Awdurdodau Lleol yn gyfrifol (yn hytrach na Gweinidogion Cymru a oedd yn gyfrifol cyn mis Hydref 2013) i benderfynu ar y rhan fwyaf o gynigion trefniadaeth ysgolion statudol sy'n derbyn gwrthwynebiadau. Mae darpariaethau o'r fath yn berthnasol i unrhyw gynigion a gyhoeddwyd ar neu ar ôl 1 Hydref, 2013 sy'n ystyried sefydlu, terfynu neu fel arall newid ysgolion yn sylweddol.

Mae'r Cyngor yn gwneud hyn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130719-school-organisation-codes-en.pdf>

Wrth wneud penderfyniad, bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr egwyddorion a'r canlyniadau dymunol canlynol:

- sicrhau fod llwybrau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer ein holl ddysgwyr 3 i 19 oed;
- sicrhau bod effaith unrhyw bwyntiau pontio yn cael eu lleihau;

- rhoi cyfle i bob dysgwr fynychu eu hysgol briodol agosaf lle y gallant gael mynediad i ystod lawn o gyfleusterau;
- sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i gyfleusterau sy'n caniatáu cyflwyniad i amrywiaeth lawn o gyfleoedd addysgol, gan gynnwys amgylcheddau addysgu a dysgu o ansawdd uchel, manau chwarae, gofod priodol i staff, cyfleusterau diogelwch a TGCh;
- lleihau nifer y lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gyda dim mwy na 10% o leoedd heb eu llenwi ar draws y rhwydwaith o ysgolion;
- cefnogi'r datblygiad o gapasiti arweinyddiaeth ar draws ysgolion er mwyn cael system o ysgolion cynaliadwy sydd hefyd yn hunan-welliannol lle mae ymrwymiad ar y cyd i ragori;
- dileu'r angen am ddsbarthiadau cyfnod allweddol cymysg a lleihau nifer y dosbarthiadau sy'n cynnwys mwy na dau grŵp oedran;
- cydleoeli (lle bo hynny'n ymarferol) darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda chyfleusterau dysgu cymunedol, diwylliant a chyfleusterau hamdden ar yr un campws; a
- sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau.

Trefniadau Llywodraethu

Newid strwythurol yn aml yn golygu newid cyfreithiol i drefniadau corff llywodraethu gyda'r angen i sefydlu a phenodi chyrff llywodraethu dros dro. Byddai'r rhain yn rhedeg ochr yn ochr â'r cyrff llywodraethu sy'n bodoli eisoes. Bydd swyddogion o'r Awdurdod yn cynorthwyo cyrff llywodraethu ar y broses hon.

Cefnogaeth ar gyfer staff addysgu a chymorth

Fel rhan o'r rhaglen, bydd y tîm Adnoddau Dynol yn gallu rhoi cyngor a chefnogi penaethiaid a staff ysgolion mewn perthynas â materion y gweithlu sy'n deillio o'r trefniadau gweithredu a gytunwyd arnynt gan y Cyngor.

Adran 5: Gweithredu

Bydd cynllun gweithredu ar wahân yn cael ei gynhyrchu gan roi dyddiadau amlinellol ac ardaloedd i'w hadolygu.

O ran llinellau amser, rhagwelir llinellau amser dilyniannol fel arfer fel a ganlyn:

- Adolygiad Ardal - 6 mis
- Cymeradwyaethau Cabinet
- Cynigion Statudol - 9-12 mis (os yn cael eu hystyried gan y Cyngor)
- Cymeradwyaethau Cabinet
- Gwaith Adeiladu (os yn berthnasol)

Bydd amseroedd yn amrywio o ysgol i ysgol ac ardal i ardal yn dibynnu ar gymhlethdod ac amgylchiadau. Yr amser lleiaf i weithredu ad-drefniad fyddai 9-12 mis gydag ardaloedd eraill yn cymryd rhwng 12-18 mis i'w gweithredu (nid yn cynnwys cyfnodau adeiladu lle mae hynny'n briodol)

Bydd rhaglen y Cyngor yn cael ei ddylunio i gysylltu ac i gyd-fynd â ffrydiau a bandiau'r rhaglen ariannu 21ain Ganrif, er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial buddsoddi.

O ystyried y broses uchod, bydd hyn yn anochel yn arwain at y Cyngor yn ymgynghori mewn meysydd cyn ei fod yn gallu sicrhau cyllid o Lywodraeth Cymru trwy ei rhaglen. Dim ond yn y cyfnod Achos Busnes Llawn y caiff cyllid ei sicrhau yn llawn.

Ariannu'r Rhaglen

Mae cyflymder y broses o weithredu unrhyw Raglen Moderneiddio Ysgolion yn amodol ar argaeledd adnoddau. Er y gall fod yn nod clir i weithredu'r rhaglen, efallai na fydd yn bosibl gwneud hyn o fewn yr amserlen a gynlluniwyd os bydd cyllid ddim ar gael.

Mae'n bwysig nodi na fydd yn bosib sefydlu ysgolion newydd ym mhob ardal. Ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd heb eu cynnwys yn y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif bydd angen cymryd ymagwedd pragmatig a mwy creadigol i fynd i'r afael â defnydd aneconomaidd o lety ysgol. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- am ychydig iawn o gost hy dynodi un ysgol fel ysgol ardal a chau ysgolion yn yr ardal gyfagos (*plant o ysgolion sy'n cael eu cau yn symud i ysgol sy'n addas i'r diben ac sydd hefo lleoedd gwag*)
- gallu ariannu ei hunain yn gyfan gwbl heb orfod dibynnu o gwbl ar yr Awdurdod Lleol
- sicrhau cyllid cyfalaf Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a darparu'r 50% o'r arian cyfatebol

Clwstwr newydd o Ddewisiadau Moderneiddio Ysgolion yn cael eu datblygu er mwyn nodi arbedion refeniw drwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion ochr yn ochr â'r Strategaeth Fuddsoddi a fydd yn cyflwyno newid sefydliadol.

Bydd angen gwerthusiad ariannol llawn gan nodi arbedion refeniw, pwysau costau ac unrhyw raglen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynnig pob ysgol ac adolygiad ardal unigol.

Dulliau o ariannu dyraniad yr Awdurdod

(Yn amodol ar gymeradwyaeth briodol)

- Gwell dyraniadau cyfalaf
- Cynhyrchu derbyniadau cyfalaf (gwaredu asedau)
- Datblygu dulliau o allu ariannu eu hunain neu gyfleoedd cyllido yn rhannol (trwy fenthyca darbodus).

Nid oes disgwyl ar unwaith y bydd unrhyw ffynhonnell gyllid ychwanegol sylweddol ar gael, ond bydd cyfle i nodi a sicrhau cyllid o'r fath yn unol â strategaethau rheoli a rhesymoli asedau.